# Gweithio gyda grwpiau ieuenctid yn y Gymuned – Dull gweithio proffesiynol

## Hanfodion sefydlu grŵp ieuenctid

Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency

## Gair am y llyfryn hwn a'i bwrpas

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn ar gyfer pobl mewn cymunedau sydd am sefydlu grŵp ieuenctid lleol . Mae'n cymryd yn ganiataol y bydd y bobl hyn fel arfer yn wirfoddolwyr, sef rhai sy'n gweithio heb dâl.

Nid yw'r llyfryn hwn yn honni bod yn ddogfen hollgynhwysol, ond yn hytrach fframwaith yn dangos sut i gychwyn.

Bydd yn rhaid ceisio rhagor o wybodaeth gan y mudiadau ac o'r ffynonellau yn y rhestr ar y diwedd. Cyfrifoldeb yr unigolyn yw gweithredu o fewn y gyfraith lle bo'n berthnasol, ac o fewn canllawiau arfer da mudiadau gwaith ieuenctid a gwirfoddol.

Y mannau cychwyn bob amser yw:

- gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol
- Cyngor Gwirfoddol lleol
- cydlynydd Partneriaeth Pobl Ifanc yr awdurdod lleol.

## Diwyg y llyfryn

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y llyfryn yn hawdd ei ddarllen, yn glir, mewn iaith blaen, yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ac yn cyfeirio'r darllenydd at ffynonellau eraill.

### Pwysig

Ym mis Gorffennaf 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen yn dweud hyn:

**"Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc, yn cynnwys 'bandiau un-dyn' a phobl ifanc hŷn yn derbyn hyfforddiant mewn materion diogelu plant a iechyd a diogelwch fan leiaf."**

(Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl 11-25 oed yng Nghymru. Arweiniad a Chyfarwyddyd, tudalen 49)

Ni ellir anwybyddu pa mor bwysig yw derbyn hyfforddiant. Os ydych yn meddwl sefydlu prosiect, rhaid ichi ymgymryd â hyfforddiant addas, lleol mewn gwaith ieuenctid. Ceir rhagor o wybodaeth am hyfforddiant y tu mewn.



## Pwy sy'n darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru ar hyn o bryd?

Mae gwaith ieuenctid yn ymwneud ag addysg anffurfiol a dysgu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ac yn enwedig rhai 13 i 19 oed.

Darperir gwaith ieuenctid yng Nghymru mewn tair prif ffordd:

- Trwy sefydliadau ieuenctid gwirfoddol mawr
- Trwy'r Awdurdod Lleol
- Trwy brosiectau lleol annibynnol bychain

**Sefydliadau ieuenctid gwirfoddol mawr** – sefydliadau gyda phencadlysoedd cenedlaethol i gefnogi grwpi leol. Enghreifftiau o'r rhain yw sefydliadau megis Urdd Gobaith Cymru; YMCAau; Clybiau Ffermwyr Ifainc; cynlluniau Gwobr Dug Caeredin; sefydliadau wedi eu seilio ar iaith neu ffydd; a sefydliadau mewn iwnifform megis y Sgowtiaid, Girlguiding Cymru a Brigadau'r Bechgyn / Merched. Mae rhai cyrff, megis Ieuenctid Cymru a Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru, yn ffederasiwn llacach o glybiau sy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant gydag agweddau arwaith ieuenctid.

Gellir dysgu rhagor am y sefydliadau gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid Cymru (CWVYS).

**Awdurdodau Lleol** – ceir 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae dyletswydd statudol ar bob un i ddarparu neu sicrhau gwasanaeth gwaith ieuenctid. Yn gyffredinol, mae'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau ieuenctid yn eiddo i'r Adran Addysg ond gall fod yn rhan o'r Adran Gwasanaethau Cymunedol neu Hamdden.

**Prosiectau lleol** – fel arfer mae'r mentrau lleol hyn yn cael eu sefydlu gan bobl mewn cymuned ac fe'u gweinyddir gan bwyllgor rheoli bychan a allai gynnwys:

- prosiectau cymunedol
- prosiectau annibynnol bychain (gydag arian y Loteri, er enghraifft)
- prosiectau aml asiantaeth a sefydlir yn aml i ddarparu gweithgareddau penodol (ee. gwahanol bynciau iechyd, digartrefedd)

Yn aml nid yw'r prosiectau hyn yn rhan o strwythur neu rhwydwaith ehangach a gallent orfod dibynnu ar gyllid byrdymor.

Mae gwybodaeth pellach ar y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru ar gael gan Gyngor Ieuenctid Cymru a CWVYS.

## Pam rydych chi am sefydlu prosiect?

Efallai eich bod yn byw mewn cymuned ac yn gweld pobl ifanc heb ddim i'w wneud ar nosweithiau hir a diflas yn y gaeaf. Fel oedolion, mae'n hawdd inni gymryd yn ganiataol y byddai'n well ganddynt fod mewn tŷ cynnes i bobl ifanc dan

oruchwyliaeth pobl hŷn.  Efallai na dyw hyn yn wir.  Petaech yn gofyn iddynt, efallai y byddai'n well ganddynt loches ieuenctid.

Cyn ichi wneud dim byd, mae'n bwysig holi cynifer o bobl â phosibl er mwyn cael gwybod beth yn union a hoffent, pa mor aml y byddent yn ei ddefnyddio a phryd. Bydd gwrando ar bobl ifanc yn eu gwneud yn berchen ar y trefniadau ac yn dilyn arfer da – y camau cyntaf yn y **cwricwlwm gwaith ieuenctid**.

Mae'n bwysig hefyd ichi ddarganfod a oes prosiectau ieuenctid eraill yn y cylch, rhag ofn dyblygu gwasanaethau.  Os oes gan y bobl ifanc resymau dilys dros beidio â chymryd rhan mewn prosiectau eraill: er enghraifft, mae'r prosiect yn rhy bell i ffwrdd, yn rhy ddrud, yn ddiflas, yn amherthnasol ayb, gellir trafod hyn ymhellach neu sefydlu prosiect newydd.

Dylech feddwl hefyd pam rydych **chi** am wneud hyn ac am eich agwedd chi tuag at bobl ifanc. Pwrpas gwaith ieuenctid yw dysgu cadarnhaol a datblygiad personol pobl ifanc. Mae hyn yn golygu mwy na chadw pobl ifanc o'r strydoedd ac allan o ddrygioni, a gwneud rhywbeth er ei fwyn ei hun yn unig.

## Pwy sy'n mynd i gymryd rhan? Sut mae sicrhau bod pobl eraill yn cyfranogi?

Mae'n bwysig cael grŵp o bobl sy'n meddwl yn debyg i chi ac sy'n barod i dreulio amser yn gweithio ar y prosiect.

Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich ar unigolion ac yn sicrhau dilyniant y cymorth.

Y gymhareb addas rhwng staff a phobl ifanc mewn grŵp ieuenctid yw 1:15. Fodd bynnag, gall hyn amrywio gan ddibynnu ar y gweithgarwch, ac ar oedran a gallu'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan.

> Os oes grŵp cymysg gennych chi o ddynion ifanc a menywod ifanc mae'n hanfodol cael gweithwyr o'r ddau ryw hefyd.

Rhaid gwirio gweithwyr. Gweler yr adran ar ddiogelu pobl ifanc.

## Egwyddorion

Mae'r llyfryn hwn yn annog unigolion sy'n gwneud gwaith gyda phobl ifanc yn eu cymunedau i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar egwyddorion neilltuol.

Ceir y rhain yn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru sy'n dweud y dylai pob gweithgaredd gyda phobl ifanc ddangos ymwybyddiaeth o'r canlynol a rhoi cyfleoedd iddynt:



- **Grymuso** – sicrhau bod pobl ifanc yn rheoli eu grŵp ieuenctid – yn rhan o'r penderfyniadau a wneir
- **Mynegi** – sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i'w mynegi eu hunain mewn sawl gwahanol ffordd
- **Cyfranogi** – sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i weithredu ar sail y penderfyniadau a wneir e.e. trefnu gweithgareddau drostynt eu hunain
- **Addysgu** – sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, cael ennill gwybodaeth newydd a chael profiadau newydd

Mae'r egwyddorion uchod wedi'u seilio ar gyfle cyfartal – sy'n sicrhau bod pob person ifanc yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Dylai'r egwyddorion hyn annog pobl ifanc I dderbyn gwahaniaethau o ran iaith, hil, hunaniaeth rywiol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a dosbarth.

Dylent hefyd cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'i  threftadaeth, ieithoedd eraill, a diwylliannau amrywiol Cymru.

Nod yr egwyddorion hyn yw galluogi pobl ifanc i chwarae rhan fwyfwy gweithredol yn eu cymunedau.

*(I weld diffiniad mwy manwl gweler y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru, Cyngor Ieuenctid Cymru)*

## Ble bydd y gwaith yn digwydd?

Bydd angen man cyfarfod ar y grŵp.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Cyfleusterau presennol megis neuaddau, canolfannau cymunedol (sy'n cael eu rhannu gyda defnyddwyr eraill)
- Negodi i logi tŷ gwag yn y gymdogaeth gan yr awdurdod lleol
- Bws neu adeilad symudol
- Caban ar dir comin

Os nad oes dim ar gael, opsiwn arall yw gwaith ymestyn/ar y stryd.  Fodd bynnag, nid yw'r llyfryn hwn yn delio â'r dull penodol iawn hwn o weithio gyda phobl ifanc. Mae'n bosibl cael gwybodaeth bellach am y math hwn o waith gan Gyngor Ieuenctid Cymru.

Dylai cyfleusterau parhaol neu led-barhaol fod yn hygyrch i bawb sydd ag anableddau e.e. rhai sydd ag angen mynediad i gadeiriau olwyn.

Dylid cynnal **asesiad risg** o waith gyda phobl ifanc er mwyn adnabod a goresgyn problemau iechyd a diogelwch a allai beryglu staff a phobl ifanc. Gall eich Awdurdod Lleol neu Gyngor Gwirfoddol lleol eich helpu i adnabod rhywun a allai gynnal asesiad risg.

Dylid cynnal asesiadau risg yn barhaus. Er enghraifft, mewn adeiladau sy'n cael eu rhannu dylai cymryd brasolwg bob amser y bydd y grŵp yn defnyddio'r adeilad rhag ofn risgiau potensial.

# Arian

Bydd angen arian i dalu am sawl peth megis gweithgareddau, costau rhedeg cyffredinol, eitemau cyfalaf megis adeiladau neu offer, neu i gyflogi staff.

Gellir codi rhywfaint o arian yn lleol, ond mae'n bosibl y bydd symiau mwy ar gael gan wahanol fyrddau'r Loteri, drwy nawdd lleol, gan ymddiriedolaethau a chwmnïau mawr. Fodd bynnag, dim ond cyrff ffurfiol sy'n cael cyflwyno cais.

Dylai'r Cyngor Gwirfoddol lleol allu helpu gyda chael hyd i grantiau a gwneud ceisiadau. Gofalwch fod pobl ifanc yn rhan o'r broses hon bob amser.

# Sefydlu corff ffurfiol

Y fantais os byddwch yn sefydlu grŵp gyda phwyllgor yw y gallwch gynorthwyo eich gilydd a datblygu strwythur. Mae hyn yn caniatáu i'r grŵp benderfynu ar reolau ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth ac i rannu cyfrifoldebau (e.e. Rôl Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd). Gall y rheolau hyn fod yn sylfaen i gyfansoddiad, sy'n ofynnol gan unrhyw grŵp sydd am ymuno â chymdeithas clybiau ieuenctid a cheisio cyllid.

Dylai'r cyfansoddiad gynnwys datganiad am enw'r grwp, ei amcanion, ei aelodaeth, pwy sy'n cael ymuno, pa hawliau sydd gan aelodau, y strwythur rheoli, sut mae pwyllgorau'n cael eu hethol, a sut y dylai pwyllgorau weithio. Mae cyfansoddiadau enghreifftiol i'w gweld mewn rhai o'r adnoddau yn y rhestr 'Darllen Pellach'.

Ceir dau ddewis wrth sefydlu grŵp:

| **Grŵp bychan cymunedol yn chwilio am £1 - 10,000** | **Grŵp bychan cymunedol yn chwilio am £10,000 - 150,000** |
|---|---|
| • Sefydlu pwyllgor gyda chadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd ac aelodau<br>• Llunio rheolau (enghreifftiau gan eich cyngor gwirfoddol lleol)<br>• Agor cyfrif banc gydag o leiaf 2 â hawl i lofnodi | • Sefydlu pwyllgor gyda chadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd ac aelodau<br>• Cofrestru fel elusen neu gwmni heb fod am elw (bydd eich cyngor gwirfoddol lleol yn cynorthwyo)<br>• Agor cyfrif banc gydag o leiaf 2 â hawl i lofnodi |

Yn y bôn, po fwyaf o arian sydd gennych mwyaf ffurfiol y dylai'r strwythurau fod a mwyaf yn y byd y gwaith papur. Dylai aelodau pwyllgorau weithredu'n gyfrifol, cael gwybod am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a derbyn hyfforddiant a chymorth yn eu gwaith.

# Diogelu'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda hwy

Ym mhob gwaith gyda phobl ifanc, eu diogelwch yw'r peth pwysicaf. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc, dylai fod gan bob grŵp **bolisi diogelu plant**. Bydd y polisi hwn yn cael dylanwad ar sut mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc a bydd yn egluro sut i weithredu os credir bod person ifanc mewn perygl o esgeulustod, camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol. Ceir crynodeb o'r prif argymhellion yn nogfen y Swyddfa Gartref 'Safe from Harm' yn y ddogfen hon.

Mae enghreifftiau o ddogfennau yn ymwneud â diogelu plant mewn llawer o adnoddau a geir yn y rhestr 'Darllen Pellach'.

## Gwirio gweithwyr

Rhaid gwirio cefndir pob oedolyn sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Dylid gwneud hyn mewn dwy ffordd: -

- gofyn am eirda gan ganolwr
- gwirio gan yr heddlu drwy'r Swyddfa Gofnodion Troseddau

Os ceir bod rhywun yn anaddas i weithio gyda phobl ifanc mae'n haws dweud na ar y dechrau na gorfod gofyn i rywun ymadael ar ôl cychwyn.

## Swyddfa Gofnodion Troseddau (CRB)

Mae'r CRB yn gwirio enwau yn ôl cofnodion heddlu lleol a chenedlaethol a rhestrau a gedwir gan gyrff eraill megis Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Bydd yn cynnwys manylion am y canlynol:

- pobl a gollfarnwyd am drosedd hysbysadwy
- pobl sydd i gael eu collfarnu am droseddau felly

Dylai cyrff bach cymunedol lleol wirio eu staff drwy asiantaethau sydd wedi cofrestru fel cyrff ambarél.

Nid yw'n costio dim i wirio gwirfoddolwyr – ond mae'r corff ambarél yn debyg o godi tâl gweinyddol. Gall adrannau gwasanaethau ieuenctid Awdurdodau Lleol brosesu'r rhain hefyd.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) newydd dderbyn arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu fel corff ambarél i gyrff gwirfoddol ac i wneud gwaith gwirio.

## Beth i'w wneud gyda'r wybodaeth?

Rhaid i ddarpar weithwyr fod yn barod i ddatgelu unrhyw gofnod am drosedd sydd ganddynt, hyd yn oed petai hwnnw fel arfer yn cael ei gyfrif fel un 'a dreuliwyd'. Fodd bynnag, nid yw cofnod trosedd o reidrwydd yn anghymwyso rhywun rhag gweithio gyda phobl ifanc – cymerir i ystyriaeth ffactorau megis natur y trosedd a faint o amser yn ôl y digwyddodd.

Mae'r CRB yn cyhoeddi canllawiau ar recriwtio'n ddiogel wrth recriwtio staff/gwirfoddolwyr sydd wedi cael collfarn.

Gall Cynghorau Gwirfoddol Lleol ddarparu gwybodaeth hefyd am Swyddfeydd Gwirfoddoli Lleol a all helpu i recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr.

## Polisïau a Gweithdrefnau

Datganiad ysgrifenedig yw polisi sy'n disgrifio gweithgarwch eich corff a'i ddulliau gwaith. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn creu fframwaith ar gyfer gweithredu ac felly'n osgoi anghydfod ac anghydweld am yr hyn y dylid ac na ddylid ei wneud mewn sefyllfa neilltuol.

Dyma rai o'r polisïau sylfaenol a ddylai fod gan grŵp ieuenctid, er enghraifft:

- Diogelu Plant
- Iechyd a Diogelwch
- Cyfle Cyfartal
- Recriwtio a dethol gweithwyr

## Materion eraill yn ymwneud a Diogelwch

Yn ogystal â gofalu am ddiogelwch pobl ifanc, rhaid i gyrff ofalu am ddiogelwch gweithwyr, adeiladau, trafnidiaeth a gweithgareddau.

Rhaid cadw nifer o ffurflenni a chofnodion sylfaenol. Gall y rhain gynnwys:

## Ffurflenni, Gwaith Papur a Chadw Cofnodion

- Ffurflen gais i staff (yn rhoi manylion am ddarpar weithwyr)
- Ffurflen eirda (i roi geirda i ddarpar weithwyr)
- Taflen gofnodion (i weithwyr)
- Ffurflen ymaelodi (manylion personol pobl ifanc)
- Ffurflen gydsynio (i rieni ei harwyddo er mwyn caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd)
- Llyfr damweiniau
- Llyfr digwyddiadau

Gellir gweld enghreifftiau o'r rhain mewn llawer o'r adnoddau yn y rhestr 'Darllen Pellach'.



# Diogel Rhag Niwed

### Côd Ymarfer ar Ddiogelu Lles Plant mewn Cyrff Gwirfoddol yng Nghymru a Lloegr

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref Llundain 1993

## Crynodeb o'r Argymhellion

Er mwyn diogelu lles y plant a phobl ifanc dan eu gofal, dylai cyrff gwirfoddol ystyried goblygiadau pob un o'r gosodiadau a ganlyn. Os dymunant, dylent weithredu fel y gwelont yn briodol yng ngoleuni eu hamgylchiadau a'u strwythurau, ac yn unol â natur eu gweithgareddau.

1. MABWYSIADU DATGANIAD POLISI AR DDIOGELU LLES PLANT.
2. CYNLLUNIO GWAITH Y CORFF YN Y FATH FODD AG I OSGOI SEFYLLFAOEDD LLE GALL PLANT GAEL EU CAM-DRIN.
3. CYFLWYNO SYSTEM LLE GALL PLANT SIARAD GYDA RHYWUN ANNIBYNNOL.
4. GWEITHREDU GWEITHDREFNAU Y CYTUNWYD ARNYNT AR DDIOGELU PLANT I STAFF CYFLOG A GWIRFODDOLWYR.
5. RHOI ROLIAU CLIR I STAFF CYFLOG A GWIRFODDOLWYR.
6. DEFNYDDIO GORCHWYLIO FEL MODD I DDIOGELU PLANT.
7. TRIN DARPAR I STAFF CYFLOG A GWIRFODDOLWYR FEL PETAENT YN CEISIO SWYDD SY'N GOLYGU CYSYLLTIAD Â PHLANT.
8. CEISIO O LEIAF UN GEIRDA GAN RYWUN SYDD Â PHROFIAD O WAITH CYFLOG NEU WIRFODDOL YR YMGEISYDD GYDA PHLANT.
9. YMCHWILIO I BROFIAD YMGEISWYR O WEITHIO GYDA PHLANT MEWN CYFWELIAD CYN PENODI.
10. CAEL GWYBOD A OES GAN YMGEISYDD GOLLFARN AM DROSEDDAU ANGHYFREITHLON YN ERBYN PLANT. [gweler Swyddfa Gofnodion Troseddau]
11. GWNEUD APWYNTIADAU AM WAITH CYFLOG NEU WIRFODDOL YN AMODOL AR FWRW CYFNOD PRAWF YN LLWYDDIANNUS.
12. CYHOEDDI CANLLAWIAU AR YMDRIN Â DATGELU NEU DDARGANFOD CAMDRINIAETH.
13. HYFFORDDI I STAFF CYFLOG A GWIRFODDOLWYR, EU RHEOLWYR LLINELL NEU EU GORUCHWYLWYR MEWN ATAL CAMDRINIAETH PLANT.

Mae'r ddogfen lawn ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref ar www.homeoffice.gov.uk/

## Yswiriant

Rhaid yswirio pob gweithgaredd gwaith ieuenctid. Er enghraifft:

- dylech fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant eiddo ac offer
- mae llogi bws mini'n cynnwys yswiriant i'r rhai sy'n cael eu cludo ond rhaid ichi gydymffurfio â rheoliadau'r Llywodraeth ar drwyddedu a iechyd a diogelwch ac addasrwydd y cerbyd i fod ar y ffordd
- y cyngor yw i oedolion beidio â chludo pobl ifanc yn eu ceir personol, ond os gwnânt dylent roi gwybod i'w cwmnïau yswiriant er mwyn gwirio beth sy'n dderbyniol. Efallai y bydd tâl ychwanegol
- bydd yn rhaid yswirio gweithgareddau 'normal' y tu mewn a'r tu allan i adeilad dan yswiriant damweiniau personol
- mae angen yswiriant ar weithgareddau peryglus ar gyfer llawer o weithgareddau a bydd y cwmni yswiriant yn darparu rhestr o'r hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol
- bydd yn rhaid i brosiectau sy'n cyflogi gweithwyr fod ag yswiriant atebolrwydd cyflogwyr hefyd

### Cyrff a all fod o help:

Ceir nifer o gyrff yng Nghymru y gall grŵp ymaelodi â hwy sy'n cynnig cyngor a chymorth, yn cynnwys cyfraddau yswiriant is. Y ddau brif gorff yw Clybiau Bechgyn a Merched Cymru ac Ieuenctid Cymru.

Gellir ceisio cymorth hefyd gan Wasanaeth Ieuenctid eich awdurdod lleol a gan y Cyngor Gwirfoddol lleol.

## Hyfforddiant a chymorth

Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl ifanc dderbyn hyfforddiant, fan leiaf, mewn Diogelu Plant a Iechyd a Diogelwch.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn:

- Rôl gweithwyr ieuenctid
- Terfynau wrth weithio gyda phobl ifanc
- Sgiliau pendantrwydd a gwrando
- Sgiliau gwaith grŵp
- Cyfrinachedd a phobl ifanc
- Y gyfraith a phobl ifanc
- Cymorth cyntaf sylfaenol
- Cynllunio rhaglenni



Pwy a all ddarparu'r hyfforddiant hwn yn lleol?

- Gwasanaeth Ieuenctid eich Awdurdod Lleol
- CWVYS ac amrediad o gyrff gwirfoddol
- Coleg Staff Cyngor Ieuenctid Cymru
- Croes Goch Brydeinig neu Ambiwlans Sant Ioan – Cymorth Cyntaf

## Rheolau sylfaenol

Dylai unrhyw grŵp sy'n cwrdd yn rheolaidd drafod a chytuno sut mae'n mynd i weithio o wythnos i wythnos.  Y pethau i'w hystyried yw: -

- Diwrnodau/amserau agor – gofalwch eich bod yn ymgynghori â'r bobl ifanc ynglŷn ag oriau agor y prosiect
- Ymddygiad derbyniol yn y grŵp?
- Ble mae pobl yn cael smygu?
- Cyffuriau ac alcohol
- Cyfrinachedd – eglurwch na allwch addo cadw popeth yn gyfrinachol; mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn dweud pethau wrthych sy'n codi amheuon am eu lles
- Gofalu am offer
- Ymddygiad y tu allan i'r adeilad
- Parchu'r trigolion eraill
- Beth sy'n digwydd os torrir y rheolau


Rhowch lais i bobl ifanc o ran datblygu'r rheolau, ond peidiwch â disgwyl iddynt fod yn gyfrifol am orfodi'r rheolau os byddant yn cael eu torri.

## Cymuned

Os yw'r grŵp yn gweithredu mewn ardal breswyl, dylid rhoi gwybod i'r trigolion am ddatblygiadau a dylid negodi a thrafod yr oriau agor a chau.  Gallai hyn leihau cwynion yn y dyfodol am sŵn a gweithgareddau.

## Cynllunio gweithgareddau

Yn gyffredinol, mae'n well cynllunio gweithgareddau ymlaen llaw, ar ôl gofyn i'r bobl ifanc yn gyntaf a rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn trefnu'r rhain gyda chi. Gall gweithgareddau byrfyfyr fod yn wych o ran dysgu, ond os byddwch yn gwneud popeth ar antur, gall y bobl ifanc a'r staff deimlo'n rhwystredig. Mae'n bwysig treulio amser yn cynllunio rhaglen o weithgareddau.




## Cynorthwyo a Monitro

Dylai rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc drefnu cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd fel grŵp o staff a gyda phobl ifanc i drafod materion sydd wedi codi ac atebion posibl. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl yn gweithio yn yr un ffordd ac yn unol â'r cwricwlwm gwaith ieuenctid.

Dylech gadw cofnodion syml o weithgareddau a nifer y bobl ifanc a gymerodd ran. Holwch bobl ifanc yn rheolaidd am yr hyn sy'n apelio atynt yn y ddarpariaeth ac am bethau yr hoffent eu newid/gwneud. Gweithredwch ar y wybodaeth os yw'n ddichonadwy ac yn ddiogel. Cofiwch eich bod yn dysgu mwy drwy eich camgymeriadau na thrwy eich llwyddiannau!

I gloi, gall gwaith gyda phobl ifanc fod yn anodd ar adegau ond mae'n hwyl ac yn talu ar ei ganfed. Cofiwch fod llawer o gyrff ac adnoddau ar gael i gynnig gwybodaeth, help a chymorth.



## Mudiadau Defnyddiol:

**Sefydliadau Ieuenctid Gwirfoddol Mawr** (manylion gan CWVYS)

**Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol** (manylion gan CIC)

**Cydlynwyr Partneriaethau Pobl Ifanc Awdurdodau Lleol**
(manylion gan CIC)

**Cynghorau Gwirfoddol Lleol**
(manylion gan CIC)

**Cyngor Ieuenctid Cymru (CIC)**
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
☎ 029 20 855700
✉ wya@wya.org.uk
www.wya.org.uk

**Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)**
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
☎ 029 20 855722
✉ cwvys@wya.org.uk

**Y Coleg Staff**
(hyfforddiant i weithwyr ieuenctid)
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
☎ 029 20 855700
✉ staffcollege@wya.org.uk
www.staffcollege.com

**Clybiau Bechgyn a Merched Cymru**
Canolfan Busnes y Gorllewin, Riverside Terrace, Pont Elái, Caerdydd CF5 5AS
☎ 029 2057 5705
✉ bgcw@waleshq.fsnet.co.uk
www.bgcw.net

**Ieuenctid Cymru**
(Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru gynt)
Pencadlys/Canolfan Hyfforddi, Sachville Avenue, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF4 3NY
☎ 029 20 616123
✉ mail@wayc.org.uk
www.wayc.org.uk

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)**
Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
☎ 0870 607 1666 (Helpdesk)
Minicom 029 2043 1702
✉ help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

**CGGC Swyddfa Gofnodion Troseddau**
11–13 Ffordd Wynnstay, Bae Colwyn, Conwy LL29 8NB
☎ 0870 241 6557

**Croes Goch Cymru**
d/o British Red Cross, UK Office, 9 Grosvenor Crescent, London SW1X 7EJ
☎ 020 7201 5027
✉ information@redcross.org.uk
www.redcross.org.uk

**Ambiwlans Sant Ioan Cymru**
Priory House, Meridian Court, Heol y Gogledd, Caerdydd CF4 3BL
☎ 029 20 627627
www.stjohnwales.co.uk

**Undeb y Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned (CYWU)**
The Argent Centre, 60 Frederick Street, Birmingham B1 3HS
☎ 0121 244 3344
✉ kerry@cywu.org.uk
www. cywu.org.uk

**Children's Legal Centre**
(Gwasanaeth cyngor a gwybodaeth am y gyfraith)
University of Essex, Wivenhoe Park, Colchester, Essex CO4 3SQ
☎ 01206 873820
✉ clc@essex.ac.uk
www. Childrenslegalcentre.com

**Swyddfa Gofnodion Troseddau (Criminal Records Bureau)**
PO Box 91, Liverpool L69 2HU
Information line: - 0870 9090 811
www.crb.gov.uk

**Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol (Community Transport Association)**
(Gwybodaeth am redeg bysiau mini)
Highbank, Halton Street, Hyde, Cheshire SK14 2NY
☎ 0161 367 8780
✉ CTAUK@CommunityTransport.com
www.communitytransport.com/

# Darllen Pellach

**Cedwir yr adnoddau a ganlyn yn llyfrgell Cyngor Ieuenctid Cymru. Mae'r rhan fwyaf ar gael i'w benthyca. Gellir gweld rhestr lawn o gynnwys y llyfrgell ar y wefan ar www.wya.org.uk**

**FOUNDATIONS: THE GUIDE TO RUNNING A YOUTH GROUP**
*Alan Rogers 1999*
Cyflwyniad i'r agweddau ymarferol ar weithio gyda phobl ifanc. Fe'i rhannwyd yn ddwy ran. Mae rhan 1 yn edrych ar y gofynion wrth sefydlu grŵp ieuenctid ac rhan 2 yn ffocysu ar ddarparu rhaglen sy'n cynnwys ac yn diddori pobl ifanc.

**LEADER'S GUIDE: A TOOL FOR YOUTH WORKERS, MANAGERS AND VOLUNTEERS**
*National Association of Clubs for Young People 1999*
Arweinlyfr yw hwn mewn tair adran i helpu arweinwyr clybiau, gwirfoddolwyr a rheolwyr i reoli clybiau ieuenctid. Forming Your Club – yn nodi ystyriaethau allweddol; Managing Your Club – yn edrych ar reoli o ddydd i ddydd; Issues and Help – creu rhaglen

**WORKING WITH YOUNG PEOPLE: A TOOL KIT**
*Alan Rogers, Doug Nicholls 2001*
Arweinlyfr ymarferol i weithwyr maes sydd am integreiddio dull gwaith ieuenctid i'r strwythur Groundwork. Mae rhan 1 yn trafod sefydlu prosiect ieuenctid. Mae rhan 2 yn cynnwys cyfarwyddyd ar ymarfer, yn cynnwys atebolrwydd, asesu risg, gweithdrefnau a chyfrinachedd.

**YMESTYN HAWLIAU: CYNORTHWYO POBL IFANC YNG NGHYMRU**
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000*
Adroddiad gan Uned Bolisi'r Cynulliad ar wasanaethau i bobl ifanc. Yn ystyried barn pobl ifanc, cyd-destun dysgu gydol oes, gwasanaethau gwybodaeth, y gwasanaeth ieuenctid ac fel y dylai pob gwasanaeth ddarparu rhwydwaith o gymorth.

**YMESTYN HAWLIAU: CYNORTHWYO POBL IFANC 11-25 OED YNG NGHYMRU, CYFEIRIAD AC ARWEINIAD**
*Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002*
Mae'r ddogfen yn rhoi'r strwythur ar gyfer gweithredu egwyddorion "Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru" a'r Papur Gwyrdd "Rhywbeth i Bawb yw Dysgu" yn ymarferol ar lefel leol.

**ADOLESCENCE: POSITIVE APPROACHES FOR WORKING WITH YOUNG PEOPLE**
*Ann Wheal 1998*
Llyfr adnoddau yw hwn, wedi'i anelu'n bennaf at rai sydd am weithio gyda'r grŵp oedran 12-16 oed. Mae'n cynnwys strategaethau ar gyfer creu'r amgylchedd iawn, canllawiau ar hyfforddi pobl, a dulliau o ddatrys problemau.

**DELIVERING GOOD YOUTH WORK: A WORKING GUIDE TO SURVIVING AND THRIVING**
*Gina Ingram, Jean Harris 2001*
Rhagarweiniad cryno i waith ieuenctid mewn pedair adran: - Deall byd pobl ifanc; Diffinio gwaith ieuenctid da, cynllunio a monitro rhaglenni; Hunan-reoli, straen a chymorth; Rheoli staff, ymdrin â grwpiau a sefydliadau.

**THE ART OF YOUTH WORK**
*Kerry Young 1999*
Mae'r llyfr hwn yn ceisio ateb dau gwestiwn canolog: beth yw gwaith ieuenctid? a beth mae gweithwyr ieuenctid yn ei wneud? Mae'n edrych ar natur, athroniaeth ac arfer gwaith ieuenctid. Hefyd mae'n trafod y sgiliau a'r gwerthoedd angenrheidiol i wneud gwaith ieuenctid yn llwyddiannus.

**YOUTH WORK**
*Tony Jeffs, Mark Smith (gol) 1987*
Llyfr wedi'i ysgrifennu gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Maent yn asesu elfennau eu harferion eu hunain a gweithwyr eraill. Maent yn disgrifio'u gwaith a'u meddylfryd, gan osod eu swyddogaeth mewn cyd-destun damcaniaethol ehangach.

**CHWYTHU TÂN I GYFRANOGI: ARWEINIAD DRAIG FFYNCI**
*Trudy Aspinwall, Cath Larkins 2002*
Canllawiau dwyieithog ar arfer da wrth gynorthwyo grwpiau o blant a phobl ifanc sydd am ddysgu cyfranogi. Yn trafod: egwyddorion cyfranogi; paratoi a chynllunio; gweithredu a gwerthuso. Hefyd yn cynnwys rhestrau gwirio a rhestr adnoddau.

**BUILDING USER INVOLVEMENT**
*Carolyn Mumby 2001*
Arweiniad ymarferol i gynnwys defnyddwyr, sy'n ymdrin â'r broses – o ymgynghori â phobl ifanc yn cymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau. Yn cynnwys 6 astudiaeth achos a chyfres o restrau gwirio ar gyfer monitro cynnydd.

**VOLUNTARY BUT NOT AMATEUR (5ED ARGRAFFIAD)**
*D Forbes, R Hayes, J Reason 1998*
Arweiniad i'r gyfraith i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Yn edrych ar ofynion cyfreithiol ac arfer da. Yn cynnwys adrannau ar strwythurau cyfreithiol; staffio; iechyd a diogelwch; adeiladau; rheolaeth arianno a phwyllgorau.

**JUST ABOUT MANAGING (3YDD ARGRAFFIAD)**
*Sandy Adirondack 1998*
Rhagarweiniad ymarferol a chynhwysfawr i reoli ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am drefnu neu gydlynu mudiad, tîm neu brosiect gwirfoddol. Yn cynnwys adrannau ar gyfarfodydd, cynllunio, monitro, gwerthuso, hyfforddiant a straen.

**THE LEGAL GUIDE FOR INVOLVING YOUNG PEOPLE AS VOLUNTEERS**
*Clair Bryan, Esther Thompson 2000*
Arweiniad i'r gyfraith i fudiadau sy'n cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr. Yn cynnwys terfynau oedran, yswiriant, diogelu plant.

**WORKING WITH YOUNG PEOPLE: LEGAL RESPONSIBILITY AND LIABILITY (5ED ARGRAFFIAD)**
*Carolyn Hamilton 2002*
Cyngor a gwybodaeth am y gyfraith a chyfrifoldebau rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Wedi ei ymestyn i gynnwys cynhalwyr ifanc, anabledd, y Gwasanaeth Connexions, iechyd a diogelwch, gofal a throseddau rhywiol.

**A GUIDE TO RISK ASSESSMENT**
*Health and Safety Executive 1999*
Arweiniad i arfer da wrth asesu risgiau cyffredin yn y gweithle. Yn cynnwys y risgiau a ddylai gael eu hasesu, trylwyredd yr asesu, pa bryd i asesu a chofnodi/adolygu'r asesiad. Yn cynnwys rhestr ddarllen.

**FIVE STEPS TO RISK ASSESSMENT**
*Health and Safety Executive 2002*
Arweiniad syml i asesu risg. Rhannwyd y broses yn bum cam: chwilio am beryglon potensial; penderfynu pwy a allai gael ei niweidio a sut; gwerthuso'r risgiau a'r dulliau atal presennol; cofnodi canlyniadau; adolygu a diwygio. Yn cynnwys darllen pellach a rhestr gysylltiadau ym maes iechyd a diogelwch.

**EMPLOYMENT PRACTICE AND POLICIES IN YOUTH COMMUNITY AND PLAY WORK (2AIL ARGRAFFIAD)**
*Doug Nicholls 2002*
Arweiniad ymarferol i'r elfennau allweddol wrth gyflogi gweithwyr ieuenctid a chymuned rhan-amser ac amser llawn. Yn ymdrin â'r gyfraith sylfaenol ar gyflogaeth, cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, disgyblu a chwyno, gweithdrefnau ariannol a segurdod.

**HEALTH AND SAFETY IN YOUTH AND COMMUNITY WORK**
*Doug Nicholls 1997*
Llawlyfr adnoddau ar gyfer ymarfer iechyd a diogelwch mewn gwaith ieuenctid a chymuned. Yn cynnwys adrannau ar bolisi ac arfer a gweithredu strategaeth. Yn cynnwys hefyd ddeunyddiau ar gyfer taflenni, a dogfennau hyfforddi a rheoli.

**Y LLAWLYFR GWIRFODDOLI DIOGEL**
*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2002*
Arweiniad i wirio pobl a'r risgiau gyda gwirfoddoli. Yn trafod recriwtio, dethol, gwirio a goruchwylio. Yn cynnwys cyfarwyddyd penodol ar weithio gyda phlant ac oedolion diymgeledd gydag amrediad o bolisïau model.

**LLAWLYFR GWIRFODDOLWYR CYMDEITHAS CLYBIAU IEUENCTID**
*Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru 2002*
Llawlyfr cynhwysfawr i wirfoddolwyr a mudiadau. Yn cynnwys penodau ar geisiadau gan wirfoddolwyr, gwirio, goruchwylio, cyfle cyfartal, diogelu plant, cyfrinachedd a iechyd a diogelwch. Yn cynnwys ffurflenni enghreifftiol.

**SAFE AND SOUND: BUILDING A SAFER YOUTH WORK ENVIRONMENT**
*Youth Clubs Scotland 1999*
Pecyn adnoddau i gynorthwyo clybiau ieuenctid i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer gwaith ieuenctid. Yn cynnwys taflenni gwybodaeth am iechyd a diogelwch, recriwtio a dethol, cynllunio rhaglenni a pholisïau diogelu plant. Yn cynnwys hefyd bapurau briffio a ffurflenni enghreifftiol.

**FIRSTCHECK: A STEP BY STEP GUIDE FOR ORGANISATIONS TO SAFEGUARD CHILDREN**
*NSPCC 2002*
Pecyn ymarferol ar ddatblygu polisi a gweithdrefnau diogelwch plant, arferion recriwtio diogel a gweithdrefnau sylfaenol i ddiogelu plant. Fe'i hanelir at gyrff sydd heb bolisïau a/neu weithdrefnau yn eu lle a rhai sydd am archwilio gweithgareddau o'r fath.

**FIT AND SAFE: PROTECTING CHILDREN IN SPORT AND LEISURE**
*Helen Armstrong 2001*
Arweiniad hyblyg i ddiogelu plant i staff canolfannau chwaraeon a hamdden ar bob lefel. Yn cynnwys deunyddiau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu plant ac i helpu staff i ymateb yn briodol os ydynt yn amau camdriniaeth.

**KEEPING IT SAFE**
*NCVYS 2003*
Canllawiau a safonau sy'n defnyddio dull plentyn-ganolog o ddiogelu plant a phobl ifanc mewn mudiadau gwaith ieuenctid. Datblygwyd y safonau gan y sector gwirfoddol i'r sector gwirfoddol ac fe'u cymeradwywyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Meysydd yn cynnwys: polisïau a gweithdrefnau; sôn am bryderon, amheuon a honiadau; diogelwch wrth recriwtio a dethol; rheoli staff cyflog a gwirfoddolwyr; darparu addysg, hyfforddiant a chymorth; darparu gweithgareddau diogel.

**OUR DUTY TO CARE PRINCIPLES OF GOOD PRACTICE FOR PROTECTION OF CHILDREN AND YOUNG PEOPLE**
*Child Care Northern Ireland 1996*
Arweiniad sy'n nodi egwyddorion allweddol mewn perthynas â diogelu plant, yn ystyried goblygiadau pob un, ac yn rhoi rhyw arwydd am sut y gall mudiadau gwirfoddol roi'r egwyddorion hyn ar waith.

**PROTECTING CHILDREN AND YOUNG PEOPLE**
*Anne Schonveld 2001*
Deunyddiau hyfforddi i weithwyr ieuenctid a chymuned ar ddiogelu plant. Yn cynnwys: adnabod camdriniaeth; ymateb i ddatgeliadau; cyfrinachedd; cynorthwyo pobl ifanc; gweithio gydag asiantaethau eraill; rheoli staff.

**EVERYBODY'S WELCOME**
*1993*
Syniadau ymarferol am helpu grwpiau cymunedol i roi ystyr wirioneddol i'r geiriau 'cyfle cyfartal' wrth ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau, wrth reoli ac wrth recriwtio a chynorthwyo gweithwyr a gwirfoddolwyr.

**COMMUNITY START UP: HOW TO START A COMMUNITY GROUP AND KEEP IT GOING**
*Caroline Pinder 1995*
Arweiniad ymarferol i gychwyn a rhedeg grŵp cymunedol. Yn ymdrin â'r canlynol: cyfle cyfartal; cofrestru fel elusen; cyllid a chyfrifon; cael hyd i adeilad; recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr; gwerthuso; cyhoeddusrwydd; cynllunio strategol; cyfarfodydd.

**COMMUNITY WORK SKILLS MANUAL**
*Val Harris (Gol) 2001*
Llawlyfr ymarferol i weithwyr cymunedol, hyfforddwyr a myfyrwyr. Yn cynnwys cydraddoldeb, cychwyn, casglu gwybodaeth, grwpiau effeithiol, rheoli pobl, ymgyrchu, cyllid, monitro/gwerthuso, partneriaethau, hyfforddiant a rheoli prosiectau.

**THE YOUTH FUNDING GUIDE (2AIL ARGRAFFIAD)**
*Nicola Eastwood 2002*
Arweiniad ymarferol i godi arian tuag at achosion ieuenctid. Yn cynnwys:- trefnu ymgyrch i godi arian; sut i drefnu cyllideb; codi arian at brosiectau; sgrifennu ceisiadau. Yn cynnwys hefyd ffynonellau arian ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc.

**LLAWLYFR CODI ARIAN CYMRU**
*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2000*
Arweiniad i godi arian ar gyfer mudiadau gwirfoddol ac eraill. Mae rhan 1 yn ymdrin â sut i godi arian, yn cynnwys:- Paratoi; Arfer Da; ceisiadau am Grantiau/Ffynonellau eraill; y Gyfraith; Cynllunio. Mae rhan 2 yn ymdrin â ffynonellau o'r Cynulliad, Ewrop, y Loteri, Ymddiriedolaethau a mannau eraill.

**DIRECTORY OF GRANT MAKING TRUSTS 2003-04 (18fed ARGRAFFIAD)**
*Directory of Social Change 2003*
Arweiniad i 2500 o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y DU sy'n dyfarnu grantiau i bobl a mudiadau. Yn cynnwys mynegeion yn ôl ardal, diddordebau, mudiadau cymwys a mathau o grant. Yn cynnwys hefyd fanylion cyswllt ac enghreifftiau diweddar.

Addaswyd o'r testun gwreiddiol a ysgrifennwyd gan Brian Thirsk a Val Williams, Sylfaen, Caernarfon. Ffôn 01286 677117

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2003
Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol i ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo'r holl ddetholiadau a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu cyfaddasu a'u ffynhonnell a'u dyddiad yn cael eu datgan.

Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 029 20 855700
Ffacs 029 20 855701
E-bost wya@wya.org.uk
Gwefan www.wya.org.uk